

Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd

Adroddiad Blynyddol

2023 - 2024

Scrutiny
in Carmarthenshire



sirgar.gov.uk

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



CYNNWYS

Rhagair y Cadeirydd	2
1. Cyflwyniad	3
2. Trosolwg o Waith y Pwyllgor yn 2023/24	3
2.1 Rôl Craffu	3
2.2 Y Blaengynllun Gwaith	5
2.3 Cyfarfodydd Pwyllgor Craffu - Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd	5
2.4 Monitro Perfformiad	6
2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf	7
2.7 Adroddiadau Craffu cyn Gwneud Penderfyniadau.....	8
2.8 Adroddiadau Ychwanegol ac Adroddiadau Diweddar.....	12
2.9 Atgyfeiriadau.....	18
2.10 Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac Awgrymu Pynciau ar gyfer Pwyllgorau Craffu ..	18
3. Gweithgarwch y Pwyllgor Craffu.....	19
3.1 Ymchwiliadau Craffu (Gorchwyl a Gorffen).....	19
3.2 Datblygu Aelodau ac Ymweliadau Safle	19
4. Effaith - Sut mae Craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni?	21
5. Heriau	21
6. Gwaith y Pwyllgor yn y Dyfodol	22
7. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu.....	22
8. Presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor	23

Rhagair y Cadeirydd



Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd ar gyfer blwyddyn y cyngor 2023/24.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos yr amrywiaeth o waith y mae'r pwyllgor craffu hwn wedi'i wneud yn ystod y cyfnod rhwng Mai 2023 ac Ebrill 2024.

Ym mis Gorffennaf 2023, cwblhaodd y Pwyllgor yr adolygiad Gorchwyl a Gorffen ar reoli Tipio Anghyfreithlon. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei holl waith caled ar yr adolygiad hwn.

Eleni mae'r pwyllgor craffu wedi helpu i lunio'r gyllideb refeniw. Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor bryder mewn perthynas ag ôl-groniad y gwaith cynnal a chadw sy'n dirywio'n gyflym. Hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad i Aelodau'r Cabinet am gyflwyno gwybodaeth dechnegol a gweithredol fanwl i'r Pwyllgor.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r holl swyddogion ar draws maes gorchwyl y Pwyllgor Craffu hwn am eu cyfraniad a'u proffesiynoldeb wrth gefnogi gwaith y Pwyllgor gan ddarparu gwybodaeth dechnegol a gweithredol fanwl ar gais.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i fy Is-gadeirydd, y Cynghorydd Karen Davies am ei chefnogaeth amhrisiadwy drwy gydol y flwyddyn.

I gloi, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i holl aelodau'r pwyllgor am eich presenoldeb, eich proffesiynoldeb a'ch gwaith craffu rhagorol dros ein cymunedau ac ar eu rhan.

Rwy'n edrych ymlaen, unwaith eto at y fraint o gadeirio'r Pwyllgor hwn yn y flwyddyn sydd i ddod.

Y Cynghorydd: Kevin Madge
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd 2023/2024.

1. Cyflwyniad

Mae'r swyddogaeth graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu y Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrrff partner sy'n effeithio ar y Sir, a llywio'r penderfyniadau hynny.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl bwyllgorau craffu "baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol."

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o waith y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd yn ystod blwyddyn y cyngor a gafodd ei gwtogi i 6 mis yn ystod 2023/24. Ei nod yw tynnu sylw at waith y Pwyllgor a myfyrio ar y cyflawniadau gan nodi'r hyn a weithiodd yn dda a lle gellid gwneud gwelliannau. Mae'r dadansoddiad hwn yn hanfodol i ddatblygu'r broses graffu. Yn ogystal, efallai y bydd yr adroddiad hwn yn helpu i hwyluso trafodaethau ar eitemau y gellid eu nodi i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Y Cyngorydd Kevin Madge sy'n cadeirio'r Pwyllgor ac mae'n cynnwys 13 Aelod Etholedig, ac mae un sedd ar gyfer aelod o'r Grŵp Annibynnol wedi bod yn wag drwy gydol 2023/24. Darperir cymorth i'r Pwyllgor gan y Tîm Gwasanaethau Democrataidd a swyddogion eraill y Cyngor pan fo angen.

2. Trosolwg o Waith y Pwyllgor yn 2023/24

2.1 Rôl Craffu

Diweddarwyd meysydd gorchwyl y Pwyllgorau Craffu gan y Cyngor yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022 a daeth pob Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar Bortffolios Penodol y Cabinet a'u gwasanaethau perthnasol a chael trosolwg ohonynt. Mae'r Pwyllgor Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd yn gyfrifol am graffu ar y tri phortffolio Cabinet a meysydd gwasanaeth canlynol:

Diweddarwyd meysydd gorchwyl y Pwyllgorau Craffu gan y Cyngor yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2023 a daeth pob Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar Bortffolios Penodol y Cabinet a'u gwasanaethau perthnasol a chael trosolwg ohonynt. Mae'r Portffolios Cabinet canlynol a'u meysydd gwasanaeth priodol sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn fel a ganlyn:-:

Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd – Cyngorydd Aled Vaughan Owen

Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd	Materion Niwsans Statudol (Sŵn, anifeiliaid anwes, gerddi wedi gordyfu)
Datgarboneiddio	Diogelu'r Cyhoedd
Bioamrywiaeth (argyfwng natur)	Arweinydd Datblygu Cynaliadwy
Polisi Trwyddedu	Tipio Anghyfreithlon
Safonau Masnach	Gorfodi Materion Amgylcheddol
Gwastraff Di-drwydded	Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
Ansawdd Aer	Strategaeth Clefyd Coed Ynn
Economi Gylchol	Safonau Bwyd
Iechyd yr Amgylchedd	Cynlluniau Argyfwng
Rheoli Llifogydd a Glannau	Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Amddiffynfeydd Arfordirol	Mynediad i gefn gwlad
---------------------------	-----------------------

Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith – Cynghorydd Edward Thomas

Sbwriel	Trafnidiaeth Teithwyr a Chymunedol
Glanhau Strydoedd	Strategaeth Ansawdd yr Amgylchedd a Sbwriel
Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth	Gwasanaethau torri gwair
Cynnal a Chadw Tiroedd	Atgyweirio a chynnal a chadw seilwaith
Gwasanaethau Adeiladu a Rheoli Ystadau (ac eithrio'r stoc dai)	Sbwriel a Glanhau'r Gymuned
Pontydd	Polisi Trafnidiaeth Rhanbarthol
Teithio Llesol a Llwybrau Mwy Diogel	Cynnal a Chadw Parciau
Rheoli'r Fflyd (gan gynnwys adnewyddu a chynnal a chadw)	Cydweithio Rhanbarthol ar gyfer Trafnidiaeth, Priffyrdd a Gwastraff
Amlogfa Arberth	Cludiant Ysgol
Apeliadau Cludiant Ysgol	Gwasanaethau stryd
Gofalu am Adeiladu a'u Glanhau	Rheoli Gwastraff
Gwasanaethau Parcio gan gynnwys Polisi, Rheoli a Gorfodi	Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref
Gwasanaethau Ailgylchu	

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet canlynol adroddiadau/rhannau o adroddiadau sy'n dod o fewn y portffolio sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Craffu.

Aelod Cabinet dros Adnoddau – Cynghorydd Alun Lenny

Strategaeth Gyllid a'r Gyllideb	Rhaglen Gyfalaf
Cyllid Strategol (Prosiectau Corfforaethol)	Cyflawni Arbedion
Gwasanaethau Ariannol	Budd i'r Gymuned
Comisiynu a chaffael	

Diogelwch Cymunedol / Troseddau ac Anrhefn –

Un o rolau allweddol Y Pwyllgor Craffu - Lle, Cynaliadwyedd ac Newid Hinsawdd yw ei waith fel y Pwyllgor sy'n Craffu ar Droseddau ac Anrhefn. Mae gan y Pwyllgor Craffu - Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd Gylch Gorchwyl ychwanegol penodol lle mae'n arfer pwerau sy'n ymwneud â throsedd ac anrhefn (6.4 yn y Cyfansoddiad).

Yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Ddiogelwch Cymunedol yw'r Cynghorydd Ann Davies - Materion Gwledig, Cydlyniant Cymunedol a Pholisi Cynllunio.

2.2 Y Blaengynllun Gwaith

Mae'r broses graffu yn chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo atebolrwydd ym mhroses gwneud penderfyniadau yr Awdurdod Lleol. Hefyd mae'r broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisiau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio ag asiantaethau allanol.

Er mwyn i'r Pwyllgorau Craffu gymryd mwy o berchnogaeth o'u Blaengynlluniau Gwaith eu hunain, cyflwynwyd dull craffu cyn gwneud penderfyniadau ym mis Medi 2022 sy'n caniatáu i Bwyllgorau Craffu benderfynu pa adroddiadau o Flaengynllun Gwaith y Cabinet y maent am eu gweld yn dod ger eu bron. Yn ôl y drefn arferol, mae Pwyllgorau hefyd yn gallu nodi eu pynciau eu hunain ac mae'r Cabinet yn dal i allu gwahodd Pwyllgor Craffu i graffu ar benderfyniad oedd ar y gweill.

Defnyddiodd y Pwyllgor fframwaith Gateway y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu i ddatblygu ei Flaengynllun Gwaith ar gyfer blwyddyn y cyngor 2023/24 a adolygwyd yn rheolaidd. Roedd hyn yn darparu dull hawdd ei reoli, hyblyg a chadarn o graffu ac yn sicrhau bod y meysydd i'w hadolygu yn cael eu hystyried ar sail blaenoriaeth ac mewn modd amserol.

Yn hyn o beth, penderfynodd y Pwyllgor y gellid dosbarthu rhai adroddiadau cyfnodol ynghylch perfformiad a monitro'r gyllideb i aelodau y tu allan i'r rhaglen cyfarfodydd ffurfiol. Roedd y broses hon yn golygu bod modd gosod unrhyw faterion perthnasol a nodwyd gan aelodau ar yr agenda ffurfiol i'w hystyried ymhellach, fel y bo'n briodol. Arweiniodd manteision y dull hwn o weithio at wella'r drafodaeth a'r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu. At ei gilydd, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn gyson â'r rheiny a amlinellwyd yn y Blaengynllun Gwaith.

2.3 Cyfarfodydd Pwyllgor Craffu - Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd

Trefnir cyfarfodydd bob 6-8 wythnos er mwyn ystyried materion ac adroddiadau sydd wedi'u cynnwys yn ei Flaengynllun Gwaith. Cynhaliodd y Pwyllgor 7 cyfarfod ffurfiol yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24 a chynhaliwyd pob cyfarfod yn unol â'r darpariaethau a nodir yn Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, mae'r Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, Ymchwiliadau Craffu Un Diwrnod ac Ymweliadau Safle â sefydliadau a ddaw o fewn ei gylch gwaith ynghyd â sesiynau datblygu a gweithdai.

2.4 Monitro Perfformiad

Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2022/23 Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2022/23 a gynhyrchwyd yn unol â'r darpariaethau perthnasol o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar yr Amcanion Llesiant sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgorau, sef:

Amcan Llesiant	Blaenoriaeth Thematig / Gwasanaeth	Portffolio'r Cabinet	Aelod Cabinet sy'n gyfrifol
Amcan Llesiant 3	Cymunedau Ffyniannus, Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus.		
Amcan Llesiant 3	Cyflwyniad		
Amcan Llesiant 3b	Blaenoriaeth Thematig: Datgarboneiddio ac Argyfwng Natur	Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd	Cynghorydd Aled Vaughan Owen
Amcan Llesiant 3d	Blaenoriaeth Thematig: Diogelwch Cymunedol, Gwydnwch a Chydlyniant	Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig, Cydlyniant Cymunedol a Pholisi Cynllunio	Cynghorydd Ann Davies
	Safonau Bwyd	Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd	Cynghorydd Aled Vaughan Owen
Amcan Llesiant 3f	Blaenoriaeth Gwasanaeth: Gwastraff	Aelod Cabinet dros Wasanaethau	Cynghorydd Edward Thomas
Amcan Llesiant 3g	Blaenoriaeth Gwasanaeth: Priffyrdd a Thrafnidiaeth	Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith	

Roedd strwythur yr Adroddiad Blynyddol yn seiliedig ar Amcanion Llesiant newydd y Cyngor (4) fel y cytunwyd yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor ar gyfer 2022-27. Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn edrych ar bob un o'r pedwar Amcan Llesiant a'r Galluogwyr Busnes Craidd gan asesu'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn. Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth ar y sail ganlynol ar gyfer pob Amcan Llesiant a Galluogwyr Busnes Craidd:

- Dyfarniad cyffredinol
- Pam y mae hyn yn bwysig
- Y dangosyddion a'r mesurau cyffredinol allweddol
- Y canlyniadau yr ydym yn eu gosod i'n hunain
- Pa mor dda rydym yn ei wneud a sut rydym yn gwybod hynny
- Astudiaethau achos
- Meysydd i'w gwella
- Llywodraethu,

Canlyniad:

Er na chyflwynwyd sylwadau gan aelodau i'r e-bost, ystyriwyd yr Adroddiad Blynyddol gan y Cabinet ar 30 Hydref 2023 lle argymhellwyd i'r Cyngor ei gymeradwyo ac yna cafodd ei fabwysiadu yn ei gyfarfod ar 8 Tachwedd, 2023.

Adroddiadau Perfformiad 2020/21 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Craffu hwn – Un o brif rolau pwyllgor craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau sydd o fewn ei faes gorchwyl. Cafodd y Pwyllgor gyfle i graffu ar yr Adroddiadau perfformiad drwy e-bost.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am y camau a'r mesurau oedd yn gysylltiedig â'r Strategaeth Gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant fel roedd ar ddiwedd Chwarter 2. Ni ddaeth unrhyw ymholiadau i law. Cafodd adroddiad Chwarter 3 ei ystyried yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2024. Ar y cyfan, roedd yr ymholiadau a godwyd ynghylch dirywiad ffyrdd diddosbarth a'r arwyddion mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth newydd - terfyn cyflymder o 20mya. Ymatebodd yr Aelod Cabinet perthnasol i'r ymholiadau a godwyd gyda chefnogaeth y swyddogion.

2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

Adroddiadau Monitro'r Gyllideb - Cafodd yr adroddiadau eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor Craffu - Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd drwy e-bost yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor i graffu y tu allan i broses ffurfiol y Pwyllgor. Fodd bynnag, oherwydd gan nad oedd yr llawn, cytunodd y Cadeirydd i ychwanegu adroddiadau lonawr ac Ebrill at agenda ffurfiol y Pwyllgor.

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol am y cyllidebau cyfalaf a refeniw adrannol a chorfforaethol ar gyfer:

- Gorffennaf 2023 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar Chwefror 2023
- Hydref 2023 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 30 Mehefin 2023 ynghyd ag adroddiad alldro 2022/23
- Tachwedd 2023 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Awst 2023
- Ionawr 2024 – mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 30 Hydref 2024.
- Ebrill 2024 - Mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 30 Rhagfyr 2024

Galluogai'r adroddiadau hyn yr aelodau i fonitro'r gwariant ym mhob maes a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf.

Ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau nac ymholiadau gan aelodau i adroddiadau a ddosbarthwyd drwy e-bost, ond cododd yr Aelodau ymholiadau perthnasol ar yr adroddiadau a gyflwynwyd yn y cyfarfodydd ym mis Ionawr 2024 ac Ebrill 2024 yn y drefn honno lle'r oedd yr Aelod Cabinet perthnasol gyda chefnogaeth y swyddogion yn darparu ymatebion.

Ymgynghoriad - Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 i 2026/27 - Ym mis Ionawr 2024, derbyniodd y Pwyllgor, fel ymgynghorai statudol, Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 i 2026/27 i'w hystyried a rhoi sylwadau arni. Roedd yr adroddiad yn darparu rhagolwg i'r Aelodau ynghylch y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2024/2025, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2025/2026 a 2026/2027, yn seiliedig ar ragamcanion y swyddogion ynghylch gofynion gwariant ac yn ystyried y setliad amodol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr 2023.

Cododd y Pwyllgor nifer o gwestiynau a phryderon ynghylch y cyllidebau arfaethedig ar y materion a ganlyn:

- Y cynnig i roi'r gorau i wneud gwaith sgubo mecanyddol ar ffyrdd gwledig
- Gosod wyneb ffyrdd
- Gwneud gwaith sgubo mecanyddol ar ffyrdd gwledig ar sail adweithiol yn hytrach nag yn rheolaidd
- Cyflwr ffyrdd yn dirywio
- Cyflwyno taliadau am barcio ar feysydd parcio am ddim
- Y cynnig i roi'r gorau i gludiant am ddim i bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n mynychu ysgol/coleg

Ymatebwyd i'r ymholiadau gan yr Aelodau Cabinet priodol gyda chymorth Swyddogion. Yn ogystal, wrth ystyried y cynigion o ran arbedion, cynigiodd y Pwyllgor yn ffurfiol, mewn perthynas â chyflwyno taliadau parcio yn y 9 maes parcio a oedd yn rhad ac am ddim i barcio ar hyn o bryd, y dylai'r Aelod Cabinet eu hadolygu fesul achos.

Canlyniad:

Yn dilyn ystyried y cynigion yn yr adroddiad penderfynodd y Pwyllgor derbyn y cynigion ar gyfer cyflawni arbedion effeithlonrwydd fel y nodwyd yn Atodiad A(i) ar yr amod bod y sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad gan ganolbwyntio ar y canlynol:-

- Cynyddu'r cyllid sydd ar gael i gynnal a chadw priffyrdd;
Canlyniad
- Ailystyried ac adolygu cyflwyno taliadau meysydd parcio yn seiliedig ar y rhesymeg dros ddarparu lle parcio am ddim mewn ardaloedd unigol;
Canlyniad
- Ailystyried y cynnig i roi'r gorau i gludiant i'r ysgol/coleg am ddim i bobl ifanc 16 i 18 oed;
Canlyniad

Helpodd y sylwadau, y pryderon a'r argymhellion a godwyd gan y Pwyllgor i lunio strategaeth y gyllideb Refeniw ar gyfer 2024/25 – 2026/27 a gafodd ei hystyried a'i mabwysiadu yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2024.

2.7 Adroddiadau Craffu cyn Gwneud Penderfyniadau

Parcio am ddim – Gorffennaf 2023

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn cynnwys yr Adolygiad Parcio am ddim i'w hystyried. Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth gynhwysfawr a data graffigol i'r aelodau a oedd yn ystyried effaith dau gynllun a oedd ar waith ar hyn o bryd o safbwynt allbwn a refeniw.

Ar ôl ystyried y 5 opsiwn y manylwyd arnynt yn yr adroddiad, cymeradwyodd yr Aelodau y swyddogion am ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr ac am gynnwys 7 mlynedd o ddata cadarn. Fodd bynnag, dywedwyd nad oedd y data'n dangos unrhyw

dystiolaeth bod parcio am ddim yn gwneud unrhyw wahaniaeth o ran nifer yr ymwelwyr yng nghanol y trefi. Yn ogystal, nodwyd bod cydnabyddiaeth o'r argyfwng costau byw a bod yr opsiynau a roddwyd i'w hystyried yn sensitif i anghenion trigolion Sir Gaerfyrddin.

Cafodd y Pwyllgor drafodaeth helaeth ar gynnwys yr adroddiad gan gyfeirio at yr ardaloedd ansawdd aer gwael yn Sir Gaerfyrddin, y costau, yr arbedion a'r cyllidebu yn ogystal ag ystyried yr effaith ar fusnesau lleol.

Canlyniad

Penderfynodd y Pwyllgor argymhell i'r Cabinet y dylid ystyried opsiynau 4 a 5 fel y manylir yn yr adroddiad.

Adroddiad Datganiad Blynyddol y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (HAMP) 2023 – Tachwedd 2023

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Datganiad Blynyddol y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (HAMP) 2023. Wrth graffu ar yr adroddiad fe wnaeth aelodau godi pryderon mewn perthynas â'r canlynol:-

- Amcangyfrifwyd bod yr ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw ar wyneb ffyrdd yn Sir Gaerfyrddin yn sylweddol ac roedd yn tyfu fesul blwyddyn a'r gost a amcangyfrifir oedd £63m.
- Nid yw'r buddsoddiad digyfnewid o £8m sydd ei angen er mwyn gwireddu'r cyllid cyfalaf disgwylidig o £0.6m yn gynaliadwy.
- Y dull adweithiol – nid yw'n gost effeithiol nac yn gynaliadwy
- Nid oes cyllid cyfalaf ar gael ar gyfer 2023/24 ar gyfer Llwybrau Troed a Llwybrau Beicio.

Ymatebodd swyddogion i'r pryderon mewn modd agored a gonest, gan gydnabod y dirywiad yn yr ased a'r ôl-groniad cynnal a chadw o ganlyniad i hyn, dywedwyd wrth yr aelodau bod yr adran yn wynebu nifer cynyddol o geisiadau ymatebol o ran gwaith cynnal a chadw a oedd yn cael effaith sylweddol ar dimau priffyrdd gan eu dargyfeirio o waith cynnal a chadw hanfodol arall a gynlluniwyd. Yn ei hanfod, roedd yr adran dan gyfyngiadau cyllidebol sylweddol.

Wrth fynegi rhwystredigaeth â sefyllfa bresennol y gyllideb, cynigiodd y Pwyllgor y dylid anfon llythyr at Weinidog Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r sefyllfa bresennol yn cyfleu pryderon y Pwyllgor am y gyllideb.

Canlyniad:

Penderfynwyd yn unfrydol anfon llythyr at Weinidog Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r pryderon presennol mewn perthynas â sefyllfa'r rhwydwaith priffyrdd, gan gyfleu pryderon y Pwyllgor am y gyllideb.

Anfonwyd llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd ym mis Ionawr 2024 a oedd yn tynnu sylw at y ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r Cyngor Sir i gynnal ein priffyrdd drwy'r Grant Adnewyddu Priffyrdd. Buddsoddwyd yr arian mewn gwaith rhagweithiol i osod wyneb newydd ar briffyrdd a thrin yr wyneb er mwyn mynd i'r

afael â dirywiad ein ffyrdd. Yn anffodus, ers i'r cyllid hwn ddod i ben, mae ein ffyrdd yn Sir Gaerfyrddin yn dirywio ar raddfa sylweddol.

Cafwyd ymateb ym mis Chwefror 2024 gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd:-

“Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnal ffyrdd ac mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn cynnal y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Mae Awdurdodau Lleol (ALLau) yn gyfrifol am gynnal priffyrdd ac yn cael eu hariannu i wneud hynny drwy'r Grant Cynnal Refeniw craidd.

Rydym yn cydnabod y pwysau ar gyllid o fewn Awdurdodau Lleol ac mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol i helpu Awdurdodau Lleol i addasu'r rhwydwaith ffyrdd i newid yn yr hinsawdd drwy'r Gronfa Ffyrdd Cydnerth. Eleni dyfarnwyd £500,000 i Gyngor Sir Gaerfyrddin drwy'r gronfa tuag at wella gwytnwch rhwydwaith priffyrdd strategol Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, yn yr hinsawdd ariannol bresennol nid oes gennym unrhyw gynlluniau i ailgyflwyno'r Grant Adnewyddu Priffyrdd. Yn y dyfodol bydd cefnogaeth Llywodraeth Cymru i drafnidiaeth leol yn cyd-fynd â'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd, gan gynnwys y cynllun sy'n cael ei ddatblygu gan Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru”.

Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd – Llawlyfr Cynnal a Chadw - Rhan 4.8 Cynllun Gwasanaeth dros y Gaeaf a Thywydd Garw Priffyrdd - Tachwedd 2023

Derbyniodd y Pwyllgor y Llawlyfr Cynnal a Chadw - Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (HAMP) ar gyfer sylwadau penodol ar ran 4.8 – Cynllun Gwasanaeth dros y Gaeaf a Thywydd Garw Priffyrdd cyn cael ei fabwysiadu gan y Cabinet.

Ymatebodd swyddogion i ymholiadau mewn perthynas â chyfrifoldebau tirlfeddianwyr ar glirio ffosydd ar ochr y ffordd. Cymerwyd mesurau i hysbysu tirlfeddianwyr er mwyn osgoi camau gorfodi lle bo hynny'n bosibl.

Canlyniad:

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CABINET gymeradwyo Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd – Rhan 4.8 - Cynllun Gwasanaeth dros y Gaeaf a Thywydd Garw Priffyrdd

Cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus - Canol Tref Llanelli 2023

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar wneud Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus newydd ar gyfer Canol Tref Llanelli a oedd yn gofyn am farn ar y wybodaeth yn yr adroddiad.

Roedd y Pwyllgor ar ôl ystyried yr adroddiad yn hapus gyda chynnwys yr adroddiad ac roeddent yn cefnogi cyflwyno'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus yn Llanelli am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad.

Canlyniad:

Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol argymhell i'r Cabinet y dylid cymeradwyo Cyflwyno Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus – Canol Tref Llanelli.

Datblygiad Posibl Asiantaeth Rheoli Plâu Fewnol - Mawrth 2024

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar ddatblygiad posibl asiantaeth rheoli plâu fewnol i'w ystyried a rhoi sylwadau. Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd i'r Pwyllgor roi eu barn ynghylch a ddylai swyddogion baratoi achos busnes manwl fel rhan o'r broses cyn penderfynu ar gyfer datblygu polisi cyn ei gyflwyno i'r Cabinet.

Rhoddodd yr Aelodau adborth cadarnhaol o ran y syniad a chynnwys yr adroddiad. Fodd bynnag, mynegwyd wrth ddatblygu achos busnes roedd angen i'r gwasanaeth a ddarperir gan yr Awdurdod fod yn fwy ymatebol a dal ei dir yn erbyn unrhyw ddarpariaeth fasnachol a chytunwyd bod y dull cyfannol yn ffactor pwysig.

Canlyniad:

Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol argymhell i'r Cabinet y dylid ymgymryd ag achos busnes manwl ar gyfer datblygu Asiantaeth Rheoli Plâu fewnol fel rhan o'r broses cyn gwneud penderfyniadau ar gyfer datblygu polisi.

Bydd datblygiad yr achos busnes yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor Craffu ei ystyried.

2.8 Adroddiadau Ychwanegol ac Adroddiadau Diweddarau

Cynllun Rheoli Strategol Glanhau Strydoedd 2023 - Mai 2023

Yn unol â Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor, cyflwynwyd Cynllun Rheoli Strategol Glanhau Strydoedd 2023 gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r ffordd y byddai'r Cyngor yn adolygu ac yn gwella'r modd yr oedd yn darparu gwasanaethau glanhau wrth fodloni gofynion deddfwriaethol Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Gyda chymorth Swyddogion, ymatebodd yr Aelod Cabinet i nifer o gwestiynau a godwyd ynghylch y canlynol:-

- Gohebiaeth ynghylch y bwriad i waredu rhai biniau sbwriel
- Addysg ac ymwybyddiaeth y cyhoedd
- Costau staffio mewn perthynas â sgôr Dangosydd Glendid Cymru Gyfan

Canlyniad:

Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol dderbyn Cynllun Rheoli Strategol Glanhau Strydoedd 2023

Diweddariad ar gyfer ystyried Gorchymyn Diogelu Mannau Agored cyhoeddus ychwanegol ar gyfer Gorchymynion Cŵn Sir Gaerfyrddin - Gorffennaf 2023

Argymhellwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 24 Tachwedd 2022 i gyflwyno gwaharddiad ledled y Sir ar gŵn yn mynd ar gaeau chwaraeon sydd wedi'u marcio a chyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig am y drosedd o beidio â glanhau ar ôl eich ci. Yn dilyn hyn, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad diweddarau a oedd yn rhoi opsiynau i Aelodau'r Pwyllgor o ran yr hyn sydd ar gael i'r Awdurdod yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn frwd dros dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan fod y pwnc yn fater a oedd yn effeithio ar bob cymuned yn Sir Gaerfyrddin. Roedd yr aelodau yn awyddus i gael golwg ar y pecyn cymorth arfaethedig cyn iddo gael ei ddsbarthu.

Canlyniad
Wrth dderbyn yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor y dylid rhannu'r proforma safonol drafft a'r pecyn cymorth ar gyfer grwpiau chwaraeon / cynghorau tref a chymuned gyda'r Pwyllgor fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad ac i'r Pwyllgor roi sylwadau arno - mae hyn wedi'i gynnwys ym Mlaengynllun Gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25

Y wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Wastraff – Hydref 2022

Ar gais y Pwyllgor cyflwynwyd adroddiad diweddarau ynghylch Strategaeth Wastraff 2021-2025, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Gwastraff, Trafnidiaeth a Seilwaith. Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y strategaeth wastraff a'r newidiadau a roddwyd ar waith dros dro a chanlyniad y newidiadau hynny. Rodd yn amlinellu trosolwg o'r cynllun cyffredinol a'r camau gweithredu y bydd eu hangen i gyflawni'r glasbrint ar gyfer dull didoli a chasglu gwastraff wrth ymyl y ffordd.

Cododd yr Aelodau a oedd yn frwdfrydig yn eu hymagwedd at wella rheolaeth gwastraff yn Sir Gaerfyrddin, nifer o gwestiynau ac ymatebwyd iddynt gan yr Aelod Cabinet gyda chymorth Swyddogion ers cyflwyno'r newidiadau interim i'r gwasanaeth gwastraff ar 23 Ionawr 2023.

Canlyniad
PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod cyfnod interim y Strategaeth Wastraff Ionawr 2023

Strategaeth Ddrafft ar gyfer Rheoli Glaswelltir i Bryfed Peillio - Hydref 2023.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn atodiad i strategaeth ddrafft ar gyfer rheoli glaswelltir i bryfed peillio ar ystâd Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2023. Roedd yr adroddiad a gefnogwyd gan yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd yn tynnu sylw at y ffaith fod y Cyngor wedi nodi ei uchelgais fel rhan o Ddatganiad Gweledigaeth y Cabinet i gynyddu bioamrywiaeth yr holl dir sy'n eiddo i'r

Cyngor, a chydabod y gydbertynas gref rhwng newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth a llesiant dynol.

Roedd yr adroddiad yn gofyn am sylwadau'r pwyllgor yn ystod camau cynnar ei ddatblygiad.

Cafwyd nifer o sylwadau fod yr adroddiad wedi cydnabod y dirywiad mewn rhywogaethau a fe roddwyd canmoliaeth am strategaeth a oedd yn cynnwys cynnydd mewn blodau gwylt gyda'r nod o wneud gwahaniaeth o ran cynyddu gwenyn, gloynnod byw a rhywogaethau eraill.

Mynegodd yr Aelodau ystod eang o ymholiadau ynghylch bioamrywiaeth ac ymatebwyd iddynt yn unol â hynny gan y swyddog.

Canlyniad

Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn y strategaeth ddrafft.

Adolygiad Gwastraff Swmpus – Hydref 2023

Cyflwynwyd cwmpas y gwasanaeth gwastraff swmpus i'r Pwyllgor ei ystyried ac i roi sylwadau rhagarweinio arno. Y nod oedd cyflawni i'r eithaf y potensial o ran aildefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu eitemau gwastraff swmpus, hyrwyddo cynaliadwyedd, lleihau ôl troed carbon y gwasanaeth, a gwneud cynnydd o ran 'Eto', sef prosiect Economi Gylchol y Cyngor, a mentrau cymunedol eraill tebyg.

Roedd gan y Pwyllgor ymholiadau ynghylch y data a oedd yn yr adroddiad, ac ymatebodd y swyddogion i'r rhain.

Wrth ystyried y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad cyfeiriwyd at fannau gwag mawr fel Debenhams yng Nghaerfyrddin. Dywedwyd y gellid defnyddio'r mannau fel hyn ar gyfer canolfan atgyweirio ac y gellid gwella'r Cyfeiriadur Atgyweirio ar-lein i ddarparu mwy o wybodaeth i'r cyhoedd ar ba eitemau y gellid eu hatgyweirio a ble.

Canlyniad

Nododd y swyddogion sylwadau'r Pwyllgor ar yr opsiynau posibl ar gyfer y Gwasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus yn y dyfodol yn ystod y cam ymgysylltu cynnar hwn.

Strategaeth Toiledau Lleol Ddrafft – Tachwedd 2023

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Strategaeth Toiledau Lleol Ddrafft lle rhoddwyd nifer o awgrymiadau gan gynnwys:-

- Cael mynediad i gyllid drwy'r Gronfa Pethau Pwysig.
- Cyngor i gefnogi menter 'Boys need Bins' gan Grŵp Cymorth Canser y Prostad Gorllewin Cymru
- Cysylltu â cholegau sy'n cynnig cymwysterau City and Guilds i annog pobl ifanc i gymryd rhan a datblygu cynlluniau busnes i reoli cyfleusterau,

- Ystyried darparu toiledau mewn gorsafoedd gwefru trydan newydd

Ymatebodd swyddogion i'r ymholiadau a godwyd a byddent yn chwilio am ffrydiau ariannu pellach yn dilyn yr awgrymiadau a fynegwyd gan yr Aelodau.

Canlyniad:

Penderfynodd y Pwyllgor roi peilot ar waith o ran ymgyrch Boys need Bins a bod yr adran gynllunio yn ystyried gosod toiledau ochr yn ochr ag ardaloedd gwefru ceir o 5 pwynt neu ragor.

Ers y cyfarfod, bellach mae naw toiled i'r ddau ryw yn cynnwys biniau glanweithiol ar gyfer dynion a menywod. Yn ogystal, mae pob un o'n toiledau anabl ar gyfer y ddau ryw a darperir biniau glanweithiol. Mae'r broses o gyflwyno arwyddion ar draws Caerfyrddin wedi dechrau a bydd gwaith yn dechrau ar osod arwyddion yn fuan ar draws Rhydaman, Llandeilo, Llanymddyfri a chyfleusterau cyhoeddus Llanelli.

Mewn ymgynghoriad â'r Adran Gynllunio, dywedwyd y byddai hyn yn rhywbeth y gallem ei ystyried ond byddai angen i ni asesu'r goblygiadau yn llawn h.y. pwy fyddai'n eu glanhau a'u cynnal a chadw.

Blaengynllun Deddf Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin (Ionawr 2023 - Rhagfyr 2025) – Ionawr 2024

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr 2023 a Rhagfyr 2025. Roedd y cynllun yn cynnwys camau gweithredu a fyddai'n cael eu cyflawni a'u hadrodd gan sawl maes gwasanaeth.

Yn bennaf, codwyd ymholiadau ynghylch:

- Ffermydd y Cyngor
- Ffermio Cynaliadwy
- Defnyddio ymgynghorwyr mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru.

Roedd swyddogion arbenigol ar gael i ymateb i'r ymholiadau technegol.

Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd - Ionawr 2024

Roedd y Pwyllgor yn ystod sesiwn datblygu y Blaengynllun Gwaith wedi gofyn am gael yr adroddiad, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, a oedd yn darparu i'r Aelodau wybodaeth fanwl am ddull y Cyngor ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn Sir Gaerfyrddin.

Mynegodd yr Aelodau bryderon am y materion llifogydd pe bai'r dulliau ymyrraeth hanesyddol yn parhau ar waith ac yn teimlo bod angen archwilio a chyflwyno dulliau arloesol newydd i leihau rhagor o broblemau llifogydd.

Mynegwyd sylwadau ynghylch y prinder cyllid sydd ar gael ar gyfer y maes hwn.

Canlyniad:

Penderfynodd y Pwyllgor anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn amlinellu pryderon y Pwyllgor ynghylch cyllid ar gyfer lifogydd yn y dyfodol er mwyn caniatáu dulliau arloesol ar gyfer ardaloedd sydd â risg uchel o lifogydd.

Anfonwyd llythyr at y Gweinidog dros Newid Hinsawdd ym mis Chwefror 2024 yn gofyn am ystyried cynnydd mewn cyllid i alluogi Awdurdodau Lleol i archwilio dulliau arloesol ar gyfer defnydd tir sydd mewn perygl uchel o lifogydd.

Cafwyd ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn cydnabod yr anawsterau cynyddol y mae materion Newid Hinsawdd yn eu golygu i dalgylchoedd a chymunedau. Mae'r llythyr yn nodi 'Rhaid i bartneriaeth ar y cyd a dull traws-bolisi fod yn allweddol i sicrhau cydnerthedd ehangach yn wyneb yr argyfwng hinsawdd yr ydym i gyd yn ei wynebu, mae angen lleihau'r risg o lifogydd er mwyn cefnogi cenedlaethau'r dyfodol ledled Cymru.'

Huw Irranca-Davies AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion
Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HIDCC/05117/24

Cllr. Kevin Madge
Chair
Place Sustainability and Climate Change
KMadge@camarthenshire.gov.uk

11 April 2024

Dear Cllr. Kevin Madge,

Thank you for your letter of 13th February to the Minister for Climate Change regarding flood management funding. As the new Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs, flood risk falls within my portfolio.

Given the enormous pressure on public sector resources at this time, this has been one of the most challenging programmes to agree of recent years. Despite this, we have shown we remain committed to investing in our flood and coastal risk management infrastructure. You may be aware that in 2022-23, Welsh Government doubled our revenue funding for local authorities to £225k each, and I am pleased that we have been able to continue offering this higher amount in subsequent years including this year, 2024-25. In terms of the overall 2024-25 Flood and Coastal Erosion Risk Management (FCERM) Programme, we are maintaining record levels of investment and have again made over £75m available to Risk Management Authorities this year to continue to deliver against our Programme for Government commitment to reduce flood risk to over 45,000 properties. A full breakdown of this year's Programme was published on 19 March and is available online at <https://www.gov.wales/flood-and-coastal-erosion-risk-management-programme-2024-2025.html>.

I am grateful to Carmarthenshire County Council, and indeed all our RMAs in Wales, for your ongoing efforts to drive forward flood risk management for our communities. We know it is impossible to prevent all flooding, and my sympathies go out to those affected by the recent storms we experienced this winter – particularly in Ferryside and Llansteffan during Storm Ciaran in November. Nevertheless, I know the impacts of the storms could have been much worse, were it not for existing schemes, warning services and community preparedness arrangements in place.

Canolfan Cyswilt Cymraeg / First Point of Contact Centre:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff

0300 0604400
gohebiaeth.huw.irranca-davies@llw.cymru
correspondence.huw.irranca-davies@gov.wales

CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rheoli Traethlin a Mabwysiadu'r Arfordir yn Sir Gaerfyrddin – Mawrth 2024

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried a rhoi sylwadau arno a oedd yn darparu gwybodaeth fanwl am Reoli Traethlin ac Addasu Arfordirol yn Sir Gaerfyrddin. Roedd yr Aelodau'n ymwybodol o'r penderfyniadau anodd y bu'n rhaid eu gwneud o ran gwario arian ar amddiffynfeydd. Roedd cydbwysu'r angen am beirianeg caled neu adlinio a reolir yn benderfyniad anodd gyda thua 2300 o gartrefi preswyl mewn perygl o erydu arfordirol.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i ddysgu mwy am y materion a'r peirianeg mewn perthynas â'r amddiffynfeydd o amgylch arfordir Sir Gaerfyrddin gan ofyn i ymgymryd ag ymweliad safle i gynnwys ardaloedd yr ystyrir eu bod yn beryglus ac yn aros i waith gael ei wneud. Byddai hyn yn cael ei drefnu yn ystod blwyddyn graffu 2024/25.

Strategaeth Trawsnewid i Fflyd Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV). – Ebrill 2024

Yn dilyn cais gan y Pwyllgor cafwyd adroddiad oedd yn darparu gwybodaeth a diweddariad am ddatblygu'r Strategaeth Trawsnewid i Fflyd Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV). Nododd yr Aelodau fod milltired fflyd y Cyngor yn cyfrif am 19% o'i ôl troed carbon a oedd yn gyfran sylweddol o'r effaith carbon yn gyffredinol. Amlinellodd yr adroddiad y sefyllfa bresennol ynghyd â dadansoddiad TEEP cynhwysfawr a'r heriau yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu.

Mynegodd yr Aelodau eu diolch am yr adroddiad llawn gwybodaeth a teimlwyd y byddai hwn yn gyfle i gyrff gwasanaethau cyhoeddus arbed swm sylweddol o arian yn ogystal â'r manteision amgylcheddol ac ymarferol. Esboniodd y Swyddogion eu bod ar hyn o bryd yn ceisio darparu cynllun trawsnewid cadarn, cynaliadwy a fforddiadwy i'r Cyngor a fyddai'n cynnwys y cerbydau a'r seilwaith gwefru cerbydau trydan o amgylch y Sir.

Roedd y Pwyllgor yn ymroddedig ac yn rhoi awgrymiadau ynghylch gwireddu arbedion effeithlonrwydd pellach e.e. tariff amser defnyddio gan mai codi tâl dros nos oedd yr amser mwyaf cost-effeithiol.

Roedd pryderon yn y dyfodol ynglŷn â chostau yswiriant, gwaredu batris lithiwm a garejys lleol heb yr offer cywir i gynnal a chadw cerbydau trydan. Ymatebodd swyddogion hyd eithaf eu gallu gan roi sicrwydd i aelodau bod ymchwil barhaus yn cael ei wneud a'u bod yn gweithio mewn partneriaeth â cholegau i sicrhau bod dyfodol mecaneg yn Sir Gaerfyrddin yn cael ei addysgu i safon uchel o ran cerbydau trydan.

Asesiadau o asedau hawliau tramwy cyhoeddus - Ebrill 2024

Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth mewn perthynas â Hawliau Tramwy Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin. Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd a nododd fod dros 2500km o Hawliau Tramwy Cyhoeddus a thua 3176 o lwybrau wedi'u cofnodi'n unigol ar draws pob un o'r 72 Cyngor Tref a Chymuned. Byddai cwblhau asesiad o asedau yn darparu cofnod cyflawn o asedau Hawliau Tramwy Cyhoeddus yr Awdurdod Lleol ar draws y rhwydwaith cyfan.

Roedd yr Aelodau Craffu yn awyddus i sicrhau bod y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Tref a Chymuned. Esboniodd swyddogion am raglen cynnal a chadw'r Cynghorau Tref a Chymuned, y rheswm pam y daeth i ben ac y byddai'n cael ei hailgyflwyno mewn fformat gwahanol i annog gwirfoddolwyr i helpu i gynnal Hawliau Tramwy Cyhoeddus ledled Sir Gaerfyrddin.

2.9 Atgyfeiriadau

Derbyniodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2023 atgyfeiriad a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio, Mehefin 2023. Roedd yr atgyfeiriad yn ymwneud ag adolygu ardaloedd cadwraeth o dan faes gorchwyl y polisi cynllunio. Yng nghyd-destun y polisi cynllunio, bu'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio hefyd yn trafod mater pwysig sef mesurau effeithlonrwydd ynni gan eu bod yn ymwneud ag adeiladau rhestredig ledled Sir Gaerfyrddin.

Wrth dderbyn yr atgyfeiriad, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn adroddiad a oedd yn rhoi data a gwybodaeth am effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni mewn perthynas â stoc dai hanesyddol y Sir. Ychwanegwyd hyn at FlaenGynllun Gwaith 2024-25 y Pwyllgor.

2.10 Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac Awgrymu Pynciau ar gyfer Pwyllgorau Craffu

Mae gwranddo ar y cyhoedd a rhoi llais iddynt yn allweddol i effeithiolrwydd craffu. Roedd yn bwysig i'r Pwyllgor roi cyfle i bobl Sir Gaerfyrddin (a thu hwnt) lunio'r Flaengynllun Waith. Darparodd yr adran Gyfathrebu gyfrwng iddynt gyfrannu trwy'r cyfryngau cymdeithasol trwy gydol blwyddyn y Cyngor gan roi sylw i bynciau amrywiol ar y Flaengynllun Waith Craffu.

Mae'r swyddogaeth graffu yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Awdurdod lle gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am i eitemau gael eu gosod ar agenda cyfarfod y Pwyllgor. Mae'r rhai sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, neu sy'n berchen ar fusnes neu'n cael eu cyflogi yn y sir, hefyd yn cael gofyn cwestiynau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu.

Er na dderbyniodd y Pwyllgor unrhyw awgrymiadau o bynciau posibl gan y cyhoedd yn ystod 2023/24, roedd Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor yn cynnwys ystod o bynciau a oedd yn gofyn am ymgynghori/cyfranogi cyhoeddus.

Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o Bwyllgorau Craffu a gallu'r cyhoedd i gyflwyno pynciau i'w trafod, cyhoeddir Blaengynlluniau Gwaith Pwyllgorau Craffu yr Awdurdod, a manylion ynghylch sut y gall y cyhoedd gymryd rhan, ar wefan yr Awdurdod:-

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/pwyllgorau-a-chyfarfodydd/craffu/>

Yn ystod blwyddyn y cyngor, rhoddodd is-adran Gyfathrebu yr Awdurdod gymorth marchnata digidol i'r swyddogaeth Graffu gan fynd ati i hyrwyddo manylion eitemau ar gyfer y dyfodol a allai fod o ddiddordeb i'r cyhoedd mewn ymgais i gynyddu ymwybyddiaeth a chyfranogiad y cyhoedd. Gwahoddir y cyhoedd, drwy nifer o wahanol ffyrdd, i gymryd rhan yn y broses Graffu ac i dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n peri pryder.

3. Gweithgarwch y Pwyllgor Craffu

3.1 Ymchwiliadau Craffu (Gorchwyl a Gorffen)

Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023, trafododd y Pwyllgor adolygiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Reoli Tipio Anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin a oedd wedi dechrau ym mis Tachwedd 2022. Lluniwyd 7 o argymhellion yn yr adroddiad gan y Grŵp ar ôl ystyried ystod o dystiolaeth dros gyfres o gyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng Rhagfyr 2022 a Mehefin 2023.

Casglwyd gwybodaeth ar y problemau yn ymwneud â thipio anghyfreithlon ar dir preifat a thir cyhoeddus ac fel rhan o'r broses sicrhau bod canfyddiadau ac argymhellion clir. Nodwyd y meysydd canlynol fel meysydd ffocws drwy ddull strategol:

- Dull presennol o ran systemau data a chofnodi
- Dull o ran addysg ac atal
- Trefniadau rheoli a gweithio ar y cyd
- Dull gorfodi; ac hefyd
- Cyfathrebu a chyhoedduswydd

Canlyniad:

Penderfynodd y Pwyllgor Craffu i gyfeirio'r adroddiad at y Cabinet lle cafodd ei ystyried yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2023. Penderfynodd Aelodau'r Cabinet yn unfrydol i gymeradwyo'r 7 argymhelliad. Fel rhan o'r protocol Ymchwiliadau, byddai adroddiad gweithredu yn cael ei ystyried ymhen 12 mis.

3.2 Datblygu Aelodau ac Ymweliadau Safle

Yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i'r sesiynau/seminarau datblygu canlynol a drefnwyd gan yr Awdurdod:

- 21 Mehefin – Atgyweiriadau Tai
- 7 Awst – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Ymgynghoriad ar Wasanaethau Brys ac Argyfwng i Blant a Phobl Ifanc yn Ysbytai Llwynhelyg a Glangwili
- 13 Medi – Cymorth Trechu Tlodi
- 8 Tachwedd – Rheoli'r Trysorlys
- 22 Tachwedd – TG Strategaeth Ddigidol a Deallusrwydd Artiffisial
- 30 Tachwedd – Hyfforddiant Geodiscoverer
- 6 Rhagfyr – Lle a Seilwaith – Diweddariadau Gwasanaeth
- 7 Rhagfyr – Hyfforddiant Geodiscoverer
- 8 Rhagfyr – Trawsnewid Digidol
- 9 Ionawr 2024 – Deallusrwydd Artiffisial a Strategaeth Ddigidol
- Ionawr – Ymgynghoriadau Amrywiol am y Gyllideb
- 23/26 Chwefror / 7 Mawrth – Cyflwyniad i Hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth
- 6 Mawrth – Cyfrifoldeb Llifogydd
- 8 Mai – Diogelu Corfforaethol

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar ar y gyllideb yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2022/23 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd.

Ar 30 Mehefin 2023, cynhaliodd Aelodau'r Pwyllgor Craffu ymweliad safle â Chanolfan Eto a Chanolfan Ailgylchu Nant-y-caws.

Cyfarfu'r aelodau â Paul Wakelin, Rheolwr Gweithrediadau a Sean Gallagher, Rheolwr Gyfarwyddwr a fu'n eu tywys o amgylch y safle a thrafod y pynciau canlynol

1. Gweithdy a siop aildefnyddio Canolfan Eto
2. Cyfleuster aildefnyddio paent
3. Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref
4. Cyfleuster prosesu gwastraff
5. Cyfleuster compostio - Hud Myrddin
6. Bioamrywiaeth - Mêl Myrddin
7. Cynhyrchu ynni adnewyddadwy
8. Dyheadau'r dyfodol ar gyfer y safle

Diolch arbennig i Cwm Environmental am eu hamser ac am ymweliad addysgiadol iawn.



4. Effaith - Sut mae Craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni?

Mae'r mwyafrif o'r penderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod yn cael eu gwneud gan y Cabinet. Mae'r broses graffu'n rhoi cyfle i'r 65 o Gynghorwyr eraill nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth ddylanwadu ar y penderfyniadau hynny a gweithredu fel 'cyfaill beirniadol'. Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn arbennig o ddylanwadol yn hyn o beth gan ei fod yn rhoi cyfle i Bwyllgorau Craffu ystyried a rhoi sylwadau ar bolisïau a materion sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet. Hefyd mae Craffu yn helpu i sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio effeithiol â chyrrff allanol.

Mae Craffu yn chwarae rôl allweddol wrth wella'r gwasanaethau a ddefnyddir gan bobl a phlant Sir Gaerfyrddin. Hefyd mae'r broses graffu yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio effeithiol â chyrrff allanol. Mae cyfraniad preswylwyr lleol, sefydliadau a phartneriaid yn y gymuned yn rhan bwysig o'r broses graffu ac mae ein Cynghorwyr wedi ymrwymo i ymateb i sylwadau a phryderon preswylwyr.

Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn rhoi cyfle i bob Pwyllgor Craffu roi mewnbwn cyn i'r adroddiadau gael eu hystyried gan y Cabinet a dyma lais y bobl.

Yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24, mae'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd wedi cael effaith gadarnhaol mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Monitro cyllidebau a pherfformiad o fewn ei gylch gwaith
- Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am feysydd allweddol fel gwastraff
- Llunio datblygiad strategaethau newydd
- Trwy ymgymryd â'i rôl porthgadw wrth fonitro gwaith y Cabinet

5. Heriau

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod blwyddyn y cyngor a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o amser y cyfarfodydd, mae'r Pwyllgor yn awyddus i barhau i weithredu egwyddorion y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu er mwyn cael proses graffu syml a phenodol.

Er mwyn gwella swyddogaeth graffu'r Awdurdod, bydd aelodau'n parhau i fynd i sesiynau datblygu, yn gofyn am gyngor y swyddogion lle y bo'n briodol ac yn manteisio'n llawn ar drafodaeth anffurfiol cyn cyfarfodydd.

Yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, yn anffodus, nid oedd dosbarthu adroddiadau i'w craffu drwy e-bost yn llwyddiannus ac nid oedd wedi esgor ar yr un lefel o ymgysylltu a chraffu o ansawdd o gymharu â chyfarfod ffurfiol. Wrth ystyried hyn, cytunodd y Cadeirydd a'r Pwyllgor i gyfyngu ar nifer yr adroddiadau a ddosberthir drwy e-bost a monitro'r Blaengynllun Gwaith yn effeithiol drwy reoli'r agenda ffurfiol.

6. Gwaith y Pwyllgor yn y Dyfodol

Bydd gwaith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol yn cael ei ystyried yn rheolaidd fel rhan o'r Blaengynllun Gwaith a bydd yn parhau i gael ei fonitro drwy'r flwyddyn.

Fel rhan o ddatblygiad y flaengynllun gwaith, bydd y Fframwaith Porth yn cynorthwyo aelodau'r Pwyllgor i ddatblygu Blaengynllun Gwaith i sicrhau bod gwaith craffu penodol yn cael ei gyflawni gan sicrhau bod adroddiadau'n cael eu dosbarthu'n decach, bod gan y cyfrifoldebau statudol ffocws a'u bod yn cyd-fynd yn briodol â blaenoriaethau strategol y cyngor.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i chwilio am bynciau i'w trafod gan Gyngorau Tref a Chymuned yn flynyddol ac mae rhagor o wybodaeth am sut i gyflwyno pwnc i'w ystyried a gofyn cwestiynau mewn cyfarfod Craffu ar gael ar ein tudalen we Craffu:

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/pwyllgorau-a-chyfarfodydd/craffu/>

7. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Gaerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr. Mae'r cymorth a roddir i'r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:-

- llunio ac anfon agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn unol â'r Blaengynlluniau Gwaith;
- darparu cymorth a chynghor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod unrhyw faterion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- rhoi cymorth a chynghor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau'r Cyngor a'i swyddogion;
- rheoli datblygiad strategol Craffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu gyda'r Cabinet;
- rhoi cynghor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- rheoli cydlyniad a datblygiad Blaengynlluniau Gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd.
- cynorthwyo â Rhaglen Datblygu Aelodau'r Pwyllgorau Craffu.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys blaengynlluniau gwaith, adroddiadau gorchwyl a gorffen ac adroddiadau blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch neges e-bost at craffu@sirgar.gov.uk

8. Presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor

Cynhaliwyd cyfanswm o 7 cyfarfod rhithwir rhwng mis Mai 2023 a mis Ebrill 2024. Dangosir presenoldeb aelodau o'r Pwyllgor Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24 yn y tabl isod.

Gohiriwyd y cyfarfod ar 11 Mawrth 2024 oherwydd anawsterau technegol ac fe'i ailymgynullwyd ar 22 Mawrth 2024 – mae hwn wedi'i nodi fel un cyfarfod.

Aelod y Pwyllgor Craffu	Nifer y cyfarfodydd fynychwyd	a%
Y Cynghorydd Sue Allen	7	100
Y Cynghorydd Peter Cooper	3	43
Y Cynghorydd Arwel Davies	7	100
Y Cynghorydd Karen Davies	6	86
Y Cynghorydd Colin Evans	6	86
Y Cynghorydd Shelly Godfrey-Coles	7	100
Y Cynghorydd Tina Higgins	6	86
Y Cynghorydd Gary Jones	1	14
Y Cynghorydd John James	5	71
Y Cynghorydd Neil Lewis	6	86
Y Cynghorydd Kevin Madge	6	86
Y Cynghorydd Dorian Phillips	7	100
Y Cynghorydd Gareth Thomas	7	100

Dirprwyon	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd
Y Cynghorydd Deryk Cundy	1
Y Cynghorydd Alex Evans	1
Y Cynghorydd Hefin Jones	1
Y Cynghorydd Michelle Donoghue	1
Y Cynghorydd Dai Thomas	1

Aelodau'r Cabinet	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd
Y Cynghorydd Ann Davies	4
Y Cynghorydd Alun Lenny	2
Y Cynghorydd Edward Thomas	7
Y Cynghorydd Aled Vaughan-Owen	6